Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

0800 085 3968
dwrcymru.com

Nid cylchlythyr yw hwn

9 Tachwedd 2021
CAP/DT/HaileyPark/091121

Helo 'na

Cais cynllunio.Dŵr Cymru ar gyfer gorsaf bwmpio Parc Hailey

Efallai y byddwch chi'n gwybod ein bod wedi bod yn cyflawni gwaith ymchwilio yn Danescourt a Llandaf dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn helpu i lywio'r gwaith y mae angen i ni ei gyflawni ar ran datblygiad tai Plasdŵr ger Radyr. Hoffem rannu ychydig o wybodaeth â chi am y gwaith o dan sylw, ac am ein cynlluniau i adeiladu gorsaf bwmpio fechan ym Mharc Hailey.

Beth ydyn ni'n ei wneud?
Er mwyn helpu i reoli'r cynnydd yn llif y garthffosiaeth rydym yn ei ddisgwyl yn sgil datblygiad tai Plasdŵr, rydyn ni'n cyflawni gwaith i gynyddu capasiti'r rhwydwaith carthffosiaeth ac i helpu i leihau'r risg o ddigwyddiadau gweithredol yn y gymuned ar led. Mae hyn cynnwys cysylltu'r bibell garthffosiaeth sy'n rhedeg o Danescourt i bwynt cyswllt ar ochr arall Afon Taf. Rydyn ni wrthi'n dylunio ac yn cynllunio'r prosiect ar hyn o bryd, gan weithio gyda Chyngor Caerdydd, Trafnidiaeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Cais cynllunio ar gyfer gorsaf bwmpio Parc Hailey
Trwy gydweithio'n agos â'r dylunwyr a'r awdurdod lleol, cynigiwyd taw'r ateb gorau i reoli'r llif ychwanegol y bydd y datblygiad yn ei greu yw adeiladu gorsaf bwmpio fechan ym Mharc Hailey a fydd yn gysylltiedig â'r bibell garthffosiaeth, a phwmpio'r garthffosiaeth i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd. Mae lleoliad arfaethedig yr orsaf bwmpio ger Ffordd Tŷ Mawr, gyferbyn â'r maes parcio. Rydyn ni wedi rhannu ein cynlluniau â'r cynghorwyr lleol ac â Chyfeillion Parc Hailey yn ddiweddar, a byddwn ni'n parhau i weithio gyda nhw i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hwylus i drigolion lleol.

Am gael rhagor o fanylion?
Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gwybod beth rydyn ni'n ei wneud wrth i ni weithio yn eu cymuned ac felly byddwn ni ym Mharc Hailey gyda'n fan gymunedol i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych:

- Dydd Mawrth, 16 Tachwedd, 10am – 12pm
- Dydd Llun, 22 Tachwedd, 1pm – 3pm

Byddwn ni yn y maes parcio ger Ffordd Tŷ Mawr, felly galwch draw i ddweud helo. Os nad ydych chi'n gallu dod, ond bod diddordeb gennych glywed rhagor am hyn, croeso i chi roi galwad i ni ar y rhif sydd ar frig y llythyr hwn a gofyn am gael siarad â Camille Valmalle neu Danielle Thomas.

Pan fyddwn ni wedi cwblhau ein gwaith cynllunio a dylunio, byddwn ni'n ysgrifennu atoch eto i rannu rhagor o wybodaeth â chi. Yn y cyfamser, byddwn ni'n rhannu diweddariadau rheolaidd am y gwaith ar ein gwefan, ewch i www.dwrcymru.com/YnEichArdal

Yn gywir

Danielle Thomas
Rheolwr Cysylltiadau â'r Gymuned